OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 3762

# Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2001

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2001.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 17 Rhagfyr 2001.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Tanwyddau awdurdodedig at ddibenion Deddf Aer Glân 1993**

**2.** Datgenir bod glo caled, glo lled-galed, trydan, nwy, gloeau stêm anweddolrwydd isel a'r tanwyddau a ddisgrifir yn Atodlen 1 yn danwyddau awdurdodedig at ddibenion Deddf Aer Glân 1993.

**Diddymu ac eithrio**

**3.**—(1) Mae'r Rheoliadau a restrir yn Atodlen 2 wedi'u diddymu.

(2) Bydd unrhyw danwydd a weithgynhyrchwyd cyn 17 Rhagfyr 2001 a oedd yn union cyn y dyddiad hwnnw yn danwydd awdurdodedig yn parhau yn danwydd awdurdodedig er bod y Rheoliadau a restrir yn Atodlen 2 wedi'u diddymu.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

*D. Elis-Thomas*
20 Tachwedd 2001 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1998 p. 38